Cystadleuaeth 72.

Telyneg, Amser

1 Emrys sef Helen Davies, Llety'r Dderwen, Temple Bar, Llanbed, Ceredigion

2. Rebel sef Ruth Roberts Owen, Tywyn

3.3.56 sef Arwel Emlyn Jones, Rhuthun



Eisteddfod Powys Bro Ddyfi - cystadleuaeth Rhif 72. Telyneg:Amser

AMSER

(i'r ffarmwr bach)

Er ifanc dy oriau,
roeddet eisioes wedi dechrau deall
hanfodion ei gerddediad.

Y gwyneb cyfarwydd hwnnw ar wal y gegin fach,
yn guriad cyson i ddysg dy bedair blwydd,
a'r bys mawr i fyny wastad yn gwneud hi'n
rhywbeth o'r gloch.

Pob tic a thoc yn cyd-gerdded â'th chwilfrydedd;
o'r caeau i'r clos, a phob nos
yn dy balas o barlwr
yr amser gorau-
amser godro.

Ond yna, un prynhawn,
daeth taw ar y tician,
distewodd y camre;
ac wrth arch annhymig dy ffarwelio
y *'wellies'* bach, segur
a brefu marwnadol y *'mŵs'*
yn erfyn am gael troi'r cloc yn ôl.

FFUGENW- Emrys